# Agenda - Y Pwyllgor Biliau Diwygio

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1, Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 26 Hydref 2023

Amser: 09.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Helen Finlayson**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDiwygio@senedd.cymru

---

**Rhag-gyfarfod preifat (09.00-09.15)**

**1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**

(09.15)

**2 Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): Sesiwn dystiolaeth gyda'r Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad**

(09.15 - 10.15) (Tudalennau 1 - 22)

Yr Athro Laura McAllister, Cadeirydd y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad

Yr Athro Alan Renwick, Aelod o'r Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad

**Dogfennau ategol**

Papur 1 Tystiolaeth ysgrifenedig: Yr Athro Alan Renwick [Saesneg yn unig]

Briff Ymchwil

**Egwyl (10.15-10.30)**

**3 Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): Sesiwn dystiolaeth gyda'r Llywydd a Chomisiwn y Senedd**

(10.30-12.00) (Tudalennau 23 - 52)

Elin Jones AS, y Llywydd

Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd

Siwan Davies, Dirprwy Brif Weithredwr a Chlerc a Chyfarwyddwr Busnes y Senedd

Alun Davidson, Clerc, Tîm Newid Cyfansoddiadol / Strategaeth Busnes Seneddol

**Dogfennau ategol**

Papur 2 Tystiolaeth ysgrifenedig: Y Llywydd

Briff Ymchwil

## Cinio (12.00 - 12.45)

## 4 Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): Sesiwn dystiolaeth gydag academyddion seneddol

(12.45 - 13.45) (Tudalennau 53 - 60)

Yr Athro Diana Stirbu, Athro Polisi Cyhoeddus a Llywodraethu, Prifysgol Fetropolitan Llundain

**Dogfen ategol**

Briff Ymchwil

## 5 Papurau i'w nodi

(13.45)

**5.1 Llythyr gan y Pwyllgor Deisebau ynghylch Deiseb P-06-1334 Gwneud y Senedd yn Fwy Cynrychiadol o Boblogaeth Cymru - 2 Hydref 2023**

(Tudalen 61)

**5.2 Ymateb y Pwyllgor Biliau Diwygio i'r Pwyllgor Deisebau ynghylch Deiseb P-06-1334 Gwneud y Senedd yn Fwy Cynrychiadol o Boblogaeth Cymru - 3 Hydref 2023**

(Tudalen 62)

5.3 Llythyr gan y Pwyllgor Deisebau ynglŷn â deisebau ynghylch diwygio'r Senedd – 3 Hydref 2023

(Tudalennau 63 - 65)

5.4 Ymateb y Pwyllgor Biliau Diwygio i'r Pwyllgor Deisebau ynglŷn â deisebau ynghylch diwygio'r Senedd – 5 Hydref 2023

(Tudalen 66)

5.5 Llythyr at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad ynghylch Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) – 16 Hydref 2023

(Tudalennau 67 - 74)

5.6 Llythyr at gyn-Gadeirydd y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd ynghylch Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) – 16 Hydref 2023

(Tudalennau 75 - 77)

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(13.45)

## 7 Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): Trafod y dystiolaeth

(13.45-14.00)

## 8 Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): Brîff technegol

(14.00-14.15) (Tudalennau 78 - 112)

**Dogfen ategol**

Papur 3 Briff cefndir ychwanegol

**Senedd Reform Bill Committee**

**Senedd Cymru (Members and Elections) Bill**

**Written Evidence from Professor Alan Renwick, UCL Constitution Unit**

## Introduction

1. I am Professor of Democratic Politics in the Department of Political Science at University College London, and Deputy Director of the UCL Constitution Unit. My research examines the channels through which members of the public can participate in democratic processes. For current purposes, my most relevant work focuses on electoral systems and electoral reform. I was a member of the Expert Panel on Assembly Electoral Reform, which reported in 2017.

## Summary

2. In summary, this submission welcomes most aspects of the Senedd Cymru (Members and Elections) Bill ('the Bill'):
    - The increase in the size of the Senedd is needed for it to fulfil its duties to the people of Wales with maximum effectiveness.
    - The reduction in the length of the Senedd term is welcome.
    - It is sensible to increase the maximum number of ministers.
    - Progress towards allowing job sharing is a step forward.
    - The proposed electoral system will have an appropriate level of proportionality.
    - The principle that boundary review conclusions should be implemented automatically, without political intervention, is correct.
3. But some aspects of the Bill deserve challenge:
    - Most importantly, the use of a 'closed list' form of proportional representation will not serve democracy or the Senedd effectively.
    - Allowing the maximum number of ministers to be further increased without primary legislation is not appropriate.
    - The absence of gender quotas and limited progress towards job sharing is regrettable.
    - The Committee should consider carefully whether some aspects of the boundary review process are justified.

## Increase in the size of the Senedd

4. The proposed increase in the number of Senedd members from 60 to 96 is very welcome. The report of the Expert Panel on Assembly Electoral Reform analysed the size question in considerable detail and concluded that a larger chamber was needed to enable the Senedd to represent the people of Wales and to scrutinise government activity and legislative proposals as effectively as possible. The Senedd is currently unusually small in international comparison. The limited number of members makes it particularly difficult to run an effective committee system.
5. While the Expert Panel envisaged an increase in the number of members to between 80 and 90, that does not imply any argument against an increase to 96. The Panel was clear that the benefits of expansion would be greater at the upper end of its proposed range than at the lower end. By implication, a small further increase would enhance those benefits again.

**Reduction in the length of the Senedd term**

6. The question of what the length of the parliamentary term should be has no definite answer. Around the world, the commonest length is five years, but most of the world's healthiest democracies have shorter terms.[1] Scholars generally agree that the two-year term of the US House of Representatives is too short, meaning too much time is dominated by electioneering, and that the three-year terms used in Australia and New Zealand tend towards the same weakness. A five-year term greatly reduces that problem, but means that, by the end of the term, the preceding election is very distant and much may have changed since voters last had a direct say. Countries including Germany, Japan, Denmark, Norway, and Sweden all have four-year terms. Following perceived best practice at the time, almost all of the new democracies created in Central and Eastern Europe after the fall of communism likewise adopted four-year terms.
7. The Senedd's term was originally set to four years. This was altered only because of changes at Westminster, which have now been reversed. While a five-year term is acceptable, a four-year term probably provides better balance between the need for government to be able to plan ahead and the need for voters to have their say.

**Increase in the number of ministers**

8. Just as the number of Senedd members is currently low given their many important responsibilities, so is the maximum number of ministers. An increase in that number is sensible.
9. At present, there may be fourteen ministers (including the First Minister and Counsel General): 23.3% of the Senedd membership. At Westminster, the maximum number of ministers in the House of Commons (set by the House of Commons Disqualification Act 1975) is 95: 14.6% of the chamber's membership. The Bill would raise the maximum total number of Welsh ministers to nineteen: 19.8% of the Senedd membership. It would permit a further increase (through regulations) to twenty-one: 21.9% of the membership.
10. A larger number of ministers within the legislative chamber increases the 'payroll vote' and therefore weakens the chamber. This needs to be balanced against the value of a larger ministerial team. I do not have a firm view on whether the maximum should be nineteen (i.e., in the terms used in the Bill, seventeen plus the First Minister and Counsel General) or twenty-one (i.e., nineteen plus the First Minister and Counsel General). But two principles should apply:
    - First, as the chamber expands, the number of ministers should expand by a less-than-proportional amount, so that the number of ministers as a share of the chamber membership declines.
    - Second, determining the maximum number of minsters is an important matter that should be subject to full parliamentary scrutiny. It should be set out in primary legislation and should not be subject to change by secondary legislation.

**Gender quotas and job sharing**

11. The Expert Panel set out its clear reasoning on the value of gender quotas and job sharing, and it is regrettable that progress on these matters has been so slow. The proposed review of the latter is nevertheless welcome. This process should be taken seriously and any recommendations should be acted on.

[1] Inter-Parliamentary Union, Parline Database, available at https://data.ipu.org/.

**Electoral system**

12. The proposed changes to the Senedd electoral system would have two key effects: upon electoral proportionality; and upon the nature of voters' choice.
13. The effect on *proportionality* is in principle ambiguous: depending on the distribution of votes, it could yield outcomes that are either more or less proportional than those delivered by the current rules. Given what the actual distribution of votes has tended to be in Wales, however, the effect of the change would be somewhat to increase proportionality. Specifically, Labour would lose the bonus that it currently obtains from winning the large majority of constituencies in South Wales. The overall level of proportionality would, however, still be moderate: D'Hondt formula would still bring some advantage to the largest party; and the relatively small size of constituencies (six members each) would mean that small parties would still face a significant hurdle to winning seats.
14. There is no clear optimal level of proportionality, but the proposed system is within the range of the moderate proportionality that many experts have advocated.
15. The effect on *voter choice* of the proposed reforms is not at all ambiguous: the reforms would reduce it. Voters would no longer be able to vote for an individual candidate and would no longer be able to split their vote as the current system allows. Voters in the UK are used to voting for candidates, not for party lists, and confidence in political parties is very low. While political parties are central to representative democracy and their strong functioning is therefore desirable, forcing voters to think solely in party terms and denying them any choice over individuals would be harmful to democracy and to public confidence in the Senedd. It would also risk giving parties undue control over their MSs, thereby limiting the value of the expanded chamber. This is by some margin the most significant weakness in the Bill as it stands.
16. The Expert Panel proposed that a Single Transferable Vote (STV) voting system would be most appropriate for the Senedd. If it was felt that this system shifted the balance too far away from united parties, the Expert Panel suggested a moderate 'flexible list' system that would allow voters to select among the individual candidates and thereby influence which of their chosen party's candidates were elected. This system would be simple to use – for voters, parties, and election administrators.
17. Most European democracies use flexible (or fully open) lists, and the trend has been to increase this flexibility over time.[2] The adoption of closed lists would be a retrograde step and would put Wales out of line both with the British democratic tradition and with modern European democratic practice. I therefore strongly urge the Committee to consider amendments to provide for either flexible lists or STV.

**Boundary reviews**

18. The Bill provides for the automatic implementation of boundary commission recommendations. This is very welcome: boundary review processes should be strictly impartial, and allowing a Senedd vote on recommendations would put that in danger.
19. So-called 'automaticity' in the implementation of boundary commission recommendations does, however, make the impartiality of the review process itself even more important. The Committee should consider whether extra safeguards against undue government influence are needed. It would be possible, in particular, to tighten up procedures around the appointment of members of the Democracy and Boundary Commission Cymru, and to provide the Commissioners will serve

[2] Alan Renwick and Jean-Benoit Pilet, *Faces on the Ballot: The Personalization of Electoral Systems in Europe* (Oxford: Oxford University Press, 2016), p. 52.

non-renewable terms. (I wish to make it clear that I make absolutely no suggestion that there has been improper practice in the past, or that the existing Commission has acted with anything other than complete impartiality.)

20. Most aspects of the proposed boundary review processes are entirely sensible, including the proposed shortened review process for the initial pairing of Westminster constituencies.
21. On two points, however, the Committee may wish to consider carefully whether the proposed approach is optimal:
    - First, the Bill allows for a 10% margin of variation in constituency electorates around the electoral quota after 2030. That is twice the margin allowed for Westminster constituencies. It is unclear why such wide variation – which is a deviation from the principle of democratic equality – would be justified.
    - Second, the Bill allows six months for the implementation of new boundaries after the Commission's final report. This compares with four months for Westminster constituencies. It is unclear why such a long period is deemed necessary.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Elin Jones AS, Llywydd**
Senedd Cymru
**Elin Jones MS, Presiding Officer**
Welsh Parliament



David Rees AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Biliau Diwygio
Senedd Cymru

16 Hydref 2023

Annwyl Gadeirydd,

Diolch i chi am wahoddiad eich Pwyllgor i gymryd rhan mewn sesiwn tystiolaeth lafar ddydd Iau 26 Hydref 2023, ac am eich gwahoddiad i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig cyn y sesiwn. Amgaeaf fy nhystiolaeth ysgrifenedig.

Edrychaf ymlaen at drafod y materion hyn ymhellach gyda'r Pwyllgor ar 26 Hydref.

Yn gywir,

Y Wir Anrhydeddus Elin Jones AS
Y Llywydd

CC Mick Antoniw, Cwnsler Cyffredinol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
llywydd@senedd.cymru
0300 200 7403

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
llywydd@senedd.wales
0300 200 7403

## Atodiad A: Rolau a Chyfrifoldebau

Y Llywydd

Mae gan y Llywydd ystod o gyfrifoldebau mewn perthynas â'r broses ddeddfwriaethol, gan gynnwys (ymysg pethau eraill) penderfynu a yw Bil yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, pennu cwestiynau ynghylch ei gwmpas, a dewis gwelliannau.

Er mwyn sicrhau didueddrwydd y Llywydd wrth gyflawni ei swyddogaethau, nid yw'r Llywydd yn trafod rhinweddau neu ddiffyg rhinweddau Bil Llywodraeth Cymru a/neu ei ddarpariaethau tra ei fod yn destun craffu gerbron y Senedd.

O ystyried bod darpariaethau Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn ymwneud â'r Senedd, mae'r Llywydd yn bwriadu gwneud sylwadau ynghylch darpariaethau'r Bil o ran eu cymhwysiad ymarferol a'r effaith bosibl yng nghyd-destun y Senedd.

Fel Cadeirydd Comisiwn y Senedd, ac fel Cadeirydd y Pwyllgor Busnes, mae'r Llywydd yn cymryd rhan lawn yn y gwaith o gyflawni cyfrifoldebau'r cyrff hyn mewn perthynas â'r Bil.

Comisiwn y Senedd

Mae gan Gomisiwn y Senedd bedair rôl mewn perthynas â Bil Llywodraeth Cymru.

*1. Rhanddeiliad sylweddol*

Mae Comisiwn y Senedd yn rhanddeiliad sylweddol, o ystyried goblygiadau'r Bil i'r Comisiwn a'r cyrff y mae'n eu cefnogi. Yn y rôl hon, mae wedi ymateb i gais Llywodraeth Cymru am ei hamcangyfrif gorau o'r goblygiadau cost i Gomisiwn y Senedd sy'n deillio o'r Bil.

*2. Cefnogi gwaith craffu*

Mae Comisiwn y Senedd yn sicrhau bod y Senedd yn cael yr un lefel uchel o gefnogaeth ar gyfer gwaith craffu ar y Bil hwn ag y mae'n ei ddarparu ar gyfer holl Filiau Llywodraeth Cymru.

*3. Paratoi yn ofalus*

Mae Comisiwn y Senedd yn paratoi'n ofalus ar gyfer y posibilrwydd o ddiwygio'r Senedd, fel y gall ymateb yn gyflym i ganlyniad y broses o graffu ar y Bil. Os bydd y Bil yn cael Cydsyniad Brenhinol, bydd y gwaith paratoi hwn yn dwysáu i sicrhau bod ystâd y Senedd a gwasanaethau a ddarperir gan y Comisiwn yn barod i ymateb i anghenion Seithfed Senedd sy'n fwy o faint. Mae hyn yn cynnwys cefnogi'r Comisiwn, y Pwyllgor Busnes a'r Bwrdd Taliadau Annibynnol yn eu hymateb.

*4. Cyfathrebu newid*

Os bydd y Bil yn cael Cydsyniad Brenhinol, mae Comisiwn y Senedd yn barod i chwarae ei ran, ochr yn ochr â'r gymuned etholiadol ehangach, i gyfathrebu ynghylch y newidiadau etholiadol a gaiff eu deddfu.

Y Pwyllgor Busnes

Yn ogystal â chyflawni ei rôl arferol yn y broses ddeddfwriaethol, bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried nifer o argymhellion yn deillio o Adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd a chyhoeddodd ei farn cyn i'r Bil gael ei ddrafftio, er mwyn llywio gwaith Llywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi bod nifer o'r darpariaethau yn y Bil wedi'u drafftio yn seiliedig ar farn y Pwyllgor Busnes.

## Atodiad B: Sylwadau ar ddarpariaethau'r Bil

Adran 3: Etholiadau cyffredinol cyffredin: pa mor aml

Mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor am ymchwilio i'r effaith y byddai'r ddarpariaeth hon yn ei chael ar y rhyngweithio rhwng dyddiadau etholiadau'r Senedd a hyd cyfnod deiliaid swyddi cyhoeddus sy'n dod o fewn cylch gwaith y Senedd ac sydd wedi'u nodi yn ei statudau sefydlu, fel Archwilydd Cyffredinol Cymru, ac aelodau o'r Bwrdd Taliadau Annibynnol.

Er enghraifft, caiff yr Archwilydd Cyffredinol fod yn y swydd am uchafswm o 8 mlynedd. Felly, er bod etholiadau'r Senedd yn cael eu cynnal bob pum mlynedd, mae penodiad yr Archwilydd Cyffredinol wedi'i wahanu'n naturiol o etholiadau'r Senedd. Fodd bynnag, pe bai etholiadau'r Senedd yn cael eu cynnal bob 4 blynedd, mae'n bosibl y byddai'r arwahanrwydd naturiol hwn yn lleihau rhywfaint.

Adran 6: Anghymhwyso rhag bod yn Aelod o'r Senedd neu'n ymgeisydd

Heb wneud unrhyw sylw ar rinweddau'r amcan polisi y tu ôl i'r ddarpariaeth hon, mae ganddo effaith ymarferol bosibl mewn perthynas ag anghymhwyso Aelod presennol, ac efallai y bydd y Pwyllgor yn dymuno archwilio iddi.

O dan adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae person yn cael ei anghymhwyso rhag bod yn Aelod o'r Senedd, a rhag bod yn ymgeisydd i fod yn Aelod o'r Senedd, os yw'r person hwnnw'n dod o fewn unrhyw un o'r categorïau o bersonau neu swyddi a restrir yn Atodlen 1A i'r Ddeddf.

Mae'r Bil yn diwygio Atodlen 1A i anghymhwyso hefyd person nad yw wedi'i gofrestru ar y gofrestr etholwyr llywodraeth leol mewn cyfeiriad o fewn un o etholaethau'r Senedd.

Os yw Swyddog Canlyniadau Etholiadol wedi penderfynu nad yw person bellach yn preswylio mewn cyfeiriad, ac felly nad yw'n bodloni'r amodau ar gyfer cofrestru bellach, rhaid i Swyddog Cofrestru Etholiadol ddileu cofnod y person o'r gofrestr.

Daw dilead i rym pan gyhoeddir hysbysiad o newid, neu pan gyhoeddir cofrestr etholiadol ddiwygiedig, pa un bynnag sydd gyntaf.

Yn gyffredinol, cyhoeddir hysbysiadau o newid i'r gofrestr ar ddiwrnod cyntaf y mis nesaf. Fodd bynnag, pe bai'r dyddiad hwnnw'n llai na 14 diwrnod, byddai'r hysbysiad yn cael ei gyhoeddi ar ddiwrnod cyntaf y mis canlynol.

Unwaith y daw'r dilead i rym, byddai Aelod o'r Senedd yn peidio â bod ar y gofrestr etholwyr llywodraeth leol. O ganlyniad, o dan y Bil fel y'i drafftiwyd, byddai'n dod o fewn y categorïau o bersonau a restrir yn Atodlen 1A i Ddeddf Llywodraeth Cymru, a byddai'n cael ei anghymhwyso rhag bod yn Aelod o'r Senedd.

Caiff person apelio i'r Llys Sirol yn erbyn penderfyniad i'w dynnu oddi ar y gofrestr. Rhaid i apelau gael eu gwneud o fewn 14 diwrnod calendr ar ôl dyddiad y penderfyniad i dynnu’r person oddi ar y gofrestr (yn hytrach na’r dyddiad y daw’r dilead i rym).

Mae effaith apêl yn aneglur.  Yn benodol, nid yw'n glir a yw apêl yn cael yr effaith o atal y cam dileu o'r gofrestr hyd nes y bydd wedi cael ei hystyried gan y Llys Sirol.

Ar sail canllawiau’r Comisiwn Etholiadol, yn ôl pob golwg nid dyna’r drefn. Mae’r canllawiau ond yn ystyried apelau o safbwynt person sydd eisoes wedi’i ddileu o’r gofrestr. Mae hyn yn awgrymu y byddai apêl lwyddiannus yn arwain at berson yn cael ei roi yn ôl ar y gofrestr, ond ni fyddai'n cael yr effaith o’i atal rhag cael ei ddileu yn y lle cyntaf.

Gellir rhagweld felly y gallai statws cymhwysedd Aelod fod yn ansicr rhwng penderfyniad Swyddog Cofrestru Etholiadol, a chanlyniad unrhyw apêl sy’n mynd rhagddi. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn gwneud unrhyw wahaniaeth ymarferol o ystyried effaith anghymhwyso.

O dan adran 18(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, effaith anghymhwyso yw bod y person yn peidio â bod yn Aelod o'r Senedd fel bod sedd y person yn wag. Hyd yn oed os caiff yr unigolyn ei roi yn ôl ar y gofrestr, yn dilyn apêl, erbyn hynny byddai eisoes wedi peidio â bod yn Aelod a bydd y sedd wedi’i llenwi gan rywun arall.

Nid yw’r Bil yn caniatáu ar gyfer dychwelyd i’r Senedd o dan yr amgylchiadau hyn.

Fel y penderfynwyd yn flaenorol, mae’r Llywydd yn fodlon bod y ddarpariaeth hon, fel y’i drafftiwyd, yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Fodd bynnag, wrth ystyried y ddarpariaeth hon, efallai y bydd y Pwyllgor yn dymuno rhoi ffocws penodol i unrhyw oblygiadau Hawliau Dynol. Er enghraifft, o dan Erthygl 3, Protocol 1 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, yn gyffredinol mae gan unigolion hawl i sefyll mewn etholiad.

Efallai y byddai’n ddefnyddiol hefyd i’r Pwyllgor nodi’r cefndir i’r newidiadau i Ddeddf Senedd ac Etholiadau Cymru 2020 a gyflwynwyd yn Neddf Llywodraeth Cymru ar anghymwyso Aelod o’r Senedd. Cyflwynwyd y newidiadau hyn mewn ymateb i adroddiad Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Pedwerydd Cynulliad ar anghymhwyso ym mis Gorffennaf 2014. Gwnaeth y Pwyllgor argymell cyfres o egwyddorion i danategu anghymhwyso rhag bod yn aelod o’r Cynulliad, fel yr oedd yn cael ei alw bryd hynny.

Mae Deddf Llywodraeth Cymru bellach yn gwahaniaethu rhwng yr amgylchiadau sy’n rhwystr rhag bod yn ymgeisydd i’r Senedd a’r swyddi sy’n rhwystr rhag bod yn Aelod o’r Senedd, ond nid rhag bod yn ymgeisydd. Mae’r olaf o’r uchod yn swyddi a allai arwain at wrthdaro buddiant pe byddai person yn Aelod o’r Senedd ond lle mae modd

ymddiswyddo o'r swydd sy'n achosi'r gwrthdaro cyn tyngu'r llw, neu gadarnhau teyrngarwch.

Gwneir darpariaeth arbennig mewn perthynas ag aelodau o Dŷ'r Arglwyddi. Ni fydd aelodau o Dŷ'r Arglwyddi yn cael eu hanghymhwyso os byddant yn cael caniatâd i fod yn absennol ohono. Mae'r Ddeddf yn egluro y bydd yr esemptiad rhag anghymhwyso yn gymwys os byddant yn gwneud cais am ganiatâd i fod yn absennol o'r Tŷ hwnnw o fewn 8 diwrnod i'w hethol ac yn darparu copi o'r cais i Glerc y Senedd. Nid yw'r esemptiad yn dibynnu ar Aelodau'n cael caniatâd i fod yn absennol, ond yn hytrach ar wneud cais i fod yn absennol, rhag ofn y bydd oedi yn y broses o gymeradwyo cais am ganiatâd i fod yn absennol.

<u>Adran 7: Adolygiad o'r posibilrwydd o rannu swyddi sy'n ymwneud â'r Senedd ac Adran 19: Adolygiad o weithrediad y Ddeddf etc. ar ôl etholiad cyffredinol 2026</u>

Heb gynnig barn ar rinweddau'r darpariaethau hyn, gellir gweld ei bod yn anarferol gosod dyletswydd statudol ar Lywydd, gyda golwg ar geisio cydsyniad Senedd yn y dyfodol i sefydlu Pwyllgor Senedd.

Nodir nad yw'r darpariaethau yn adrannau 7 a 19 o reidrwydd yn arwain at unrhyw gamau ar wahân i'r Llywydd yn cyflwyno cynnig h.y. bydd y Seithfed Senedd yn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r camau gweithredu eraill a nodir yn y ddarpariaeth ai peidio.

Efallai yr hoffai'r Pwyllgor Biliau Diwygio ystyried:

- ai dyma'r ffordd fwyaf priodol o gyflawni amcan polisi Llywodraeth Cymru sy'n sail i'r darpariaethau hyn;
- a yw'n briodol i'r Weithrediaeth gynnig gosod dyletswydd ar unrhyw ddeiliad swydd yn y Senedd yn y dyfodol mewn perthynas â sefydlu pwyllgorau'r Senedd, yn enwedig pan fyddant yn ymwneud ag ystyried materion polisi neu waith craffu ôl-ddeddfwriaethol ar ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru;
- effaith y posibilrwydd o sefydlu dau o bwyllgorau'r Senedd ar swyddogaeth y Pwyllgor Busnes o ran penderfynu ar strwythur ac amserlenni pwyllgorau'r Seithfed Senedd a sut, pe bai'n cael ei gytuno, y byddai'n effeithio ar y nod o gynyddu capasiti pwyllgorau'r Seithfed Senedd o ran craffu;
- natur ragnodol y ddarpariaeth mewn perthynas â'i dasg, amseriad yr adolygiad arfaethedig o dan adran 19, a'r amserlen ar gyfer ei chwblhau.

Gellir gwneud y sylwadau pellach a ganlyn mewn perthynas ag adran 19:

- Pe bai'r Seithfed Senedd yn gwrthod y cynnig y mae'n ofynnol i'r Llywydd ei gyflwyno i gychwyn adolygiad, nid oes gofyniad i adolygiad gael ei gynnal o gwbl.
- Mae enghreifftiau o ddeddfwriaeth etholiadol arall yn gosod dyletswydd ar y weithrediaeth (sef Gweinidogion Cymru yng nghyd-destun Cymru) i adolygu eu deddfwriaeth diwygio etholiadol.
- Mae gan y Comisiwn Etholiadol ddyletswydd i adrodd ar Etholiadau'r Senedd a gall Gweinidogion Cymru ofyn iddo gyflwyno adroddiad ar faterion eraill sy'n ymwneud ag etholiadau datganoledig Cymru o fewn amserlenni penodedig.

## Atodiad C: Gwaith perthnasol y Pwyllgor Busnes a Chomisiwn y Senedd

**Rôl/cyfraniadau Comisiwn y Senedd yn ystod cyfnod datblygu'r Bil**

Ym mis Rhagfyr 2022, gofynnodd y Prif Weinidog i Gomisiwn y Senedd ddarparu gwybodaeth graidd yn ymwneud â'r goblygiadau ariannol cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio'r Senedd i Gomisiwn y Senedd.

Yn dilyn y cais hwn, gwnaeth y Comisiwn ddatblygu a chytuno ar set o ragdybiaethau cyffredin, yn seiliedig ar ddau senario, y gellid datblygu amcangyfrifon ohonynt; datblygwyd y tybiaethau cyffredin wrth ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes a'r Bwrdd Taliadau Annibynnol, o ystyried eu bod yn ymwneud â materion a oedd yn dod o fewn eu cylch gwaith a'u swyddogaethau penodol, yn ogystal â swyddogaethau'r Comisiwn.

O ran amcangyfrifon costau staff Comisiwn y Senedd a chostau nad ydynt yn ymwneud â staff, casglwyd gwybodaeth gan bob Gwasanaeth. Cafodd y rhain eu hadolygu ar y cyd gan y Tîm Arwain a'r Bwrdd Gweithredol. Ar yr un pryd, modelwyd amcangyfrifon cost y Penderfyniad ar draws y ddau senario, yn seiliedig ar Benderfyniad 2022-23.

Gwnaeth Comisiwn y Senedd ystyried a chytuno ar yr amcangyfrifon cost a'u hanfon at Lywodraeth Cymru ar ddiwedd mis Mawrth 2023. Ar ôl eu cyflwyno, bu deialog barhaus rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a oedd yn datblygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a swyddogion Comisiwn y Senedd a oedd wedi arwain y gwaith o gasglu'r amcangyfrifon costau, er mwyn sicrhau bod Llywodraeth Cymru wedi deall yr amcangyfrifon cost a gyflwynwyd i'r lefel ofynnol ar gyfer eu Hasesiad.

Yn ystod y cam hwn, ac ar gais Llywodraeth Cymru, cafodd costau eu haddasu i adlewyrchu tymhorau pedair blynedd y Senedd ac i addasu amcangyfrifon cost Comisiwn y Senedd i gydymffurfio â methodoleg Asesiad Effaith Rheoleiddiol Llywodraeth Cymru.

Gwnaeth y Prif Weinidog gyflwyno'r ffigurau terfynol a oedd i'w defnyddio yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ysgrifenedig i'r Comisiwn ym mis Awst 2023 cyn i'r Bil gael ei gyflwyno.

**Gwaith perthnasol y Pwyllgor Busnes**

Mae rhaglen waith weithdrefnol bresennol y Pwyllgor Busnes yn cynnwys cynnig iddo ystyried a ddylid gwneud newidiadau i'r Rheolau Sefydlog i hwyluso rhannu swyddi rhwng Aelodau mewn rolau penodol, megis rôl cadeirydd pwyllgor. Codwyd hyn mewn argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd. Ar hyn o bryd mae'r Pwyllgor Busnes yn bwriadu dechrau gweithio ar y mater hwn yn gynnar yn 2024.

Mae'r Pwyllgor Busnes hefyd yn bwriadu dechrau ystyried yr opsiynau ar gyfer gwaith a fydd yn angenrheidiol, os bydd y Bil yn mynd yn ei flaen, i adolygu'r Rheolau Sefydlog, gweithdrefnau eraill, strwythur busnes y Senedd a chanllawiau cysylltiedig cyn etholiad 2026.

**Gwaith paratoi gan Gomisiwn y Senedd**

Heb achub y blaen ar benderfyniad y Senedd ynghylch a fydd y Bil yn mynd rhagddo, mae Comisiwn y Senedd wedi gorfod dechrau paratoi ar gyfer y posibilrwydd o Ddiwygio'r Senedd, fel arall ni fyddai mewn sefyllfa i gyflawni'r newidiadau sylweddol y bydd angen eu cyflawni (os caiff y Bil ei basio) mewn pryd ar gyfer Etholiad y Senedd yn 2026.

O ystyried maint y newid, mae'r Bwrdd Gweithredol wedi cadw rheolaeth gyffredinol ar y portffolio o waith sydd ei angen i baratoi ar gyfer Diwygio'r Senedd. I'w gefnogi gyda'i waith, mae'r Bwrdd Gweithredol wedi sefydlu dwy raglen.

Sefydlwyd **Rhaglen Diwygio'r Senedd** i gydgysylltu cymorth a chyngor a gaiff eu darparu i alluogi Comisiwn y Senedd, y Pwyllgor Busnes, y Bwrdd Taliadau Annibynnol, Fforwm y Cadeiryddion, a'r Llywydd i gyflawni'r gwaith y mae angen iddynt ei wneud i baratoi ar gyfer busnes seneddol yn y Seithfed Senedd, gan sicrhau eu bod i gyd yn deall gwaith ei gilydd tra'n parchu annibyniaeth pob corff.

Bydd y Rhaglen Diwygio'r Senedd yn cydlynu'r cymorth a chyngor a ddarperir gan Gomisiwn y Senedd i sicrhau:

- y gellir cwblhau'r holl baratoadau gweithdrefnol angenrheidiol i ganiatáu i'r Seithfed Senedd weithredu ar ôl etholiadau'r Senedd yn 2026;
- y gall y Bwrdd Taliadau Annibynnol roi ei Benderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd ar waith yn unol â'i raglen waith strategol;
- y gall Comisiwn y Senedd ymateb i unrhyw broblemau y bydd yn dymuno ymateb iddynt cyn, a/neu yn ystod hynt Bil Diwygio'r Senedd.
- y gall Comisiwn y Senedd ddarparu gwasanaethau Busnes y Senedd sydd â'r capasiti, y gallu a'r hyblygrwydd i ymateb i ofynion y Seithfed Senedd; ac
- y gall y Seithfed Senedd wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch ffurf ei busnes seneddol cyn gynted ag y bydd ei thymor yn dechrau.

Mae'r **Rhaglen Ffyrdd o Weithio** yn rhaglen sydd â chylch gwaith ehangach na phrosiectau sy'n ymwneud â Diwygio'r Senedd yn unig, ond sydd â phrosiectau Siambr 2026 a Thŷ Hywel 2026 o fewn ei chyfrifoldebau (h.y. y prosiectau a sefydlwyd i gyflawni'r gwaith cyfalaf sy'n ofynnol i ddarparu ar gyfer cynnydd yn nifer yr Aelodau o'r Senedd ar ystâd y Senedd).

Mae gan Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Senedd eitem agenda sefydlog ar gyfer Diwygio’r Senedd.

O ystyried y cyd-ddibyniaethau sy’n bodoli rhwng rôl Comisiwn y Senedd wrth baratoi ar gyfer cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer Diwygio’r Senedd, a chyfrifoldeb Llywodraeth Cymru am roi ei deddfwriaeth ar waith, yn enwedig y trefniadau etholiadol y mae angen eu rhoi ar waith cyn Etholiad y Senedd yn 2026, mae Bwrdd ar y Cyd rhwng Comisiwn y Senedd a Llywodraeth Cymru wedi’i sefydlu ar lefel swyddogion i rannu gwybodaeth briodol a chynorthwyo gyda phrosesau rheoli risg priodol.

Mae Comisiwn y Senedd yn aelod o Fwrdd Cyflawni Diwygio Etholiadol y Senedd Llywodraeth Cymru. Dyma fforwm ar lefel swyddogion Llywodraeth Cymru ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol y mae’r Bil yn effeithio arnynt.

**Rôl Comisiwn y Senedd o ran addysgu ac ymgysylltu â’r cyhoedd am y systemau presennol a/neu systemau arfaethedig ar gyfer ethol Aelodau o’r Senedd**

Mae Comisiwn y Senedd wedi datblygu cynlluniau cynnar, lefel uchel i addysgu ac ymgysylltu â’r cyhoedd ynglŷn â’r newidiadau a gynigir yn y Bil Aelodau ac Etholiadau. Bydd gwaith yn parhau i ddatblygu’r cynlluniau hyn wrth i’r Bil fynd rhagddo.

Y brif gynulleidfa darged fydd y rhai sy'n ymgysylltu’n llai yn wleidyddol, gyda ffocws ar y rhai sy’n pleidleisio am y tro cyntaf (pobl ifanc rhwng 14 a 20 oed), grwpiau ethnig leiafrifol, ardaloedd economaidd-gymdeithasol isel ac ardaloedd lle mae'r nifer sy'n pleidleisio yn isel.

Rhoddir blaenoriaeth i weithio mewn partneriaeth â grwpiau a rhanddeiliaid allweddol, er enghraifft Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Etholiadol. Mae gwaith i wneud y cysylltiadau hyn eisoes ar y gweill a bydd yn sicrhau eu bod yn ategu eu gwaith ei gilydd yn hytrach na’i ddyblygu, gan geisio cydweithio lle bo'n briodol.

Ar ôl i’r ddeddfwriaeth gael ei phasio, os bydd hyn yn digwydd, bydd timau Cyfathrebu ac Ymgysylltu’r Comisiwn yn adlewyrchu newidiadau Diwygio’r Senedd ac yn ymgorffori gweithgareddau perthnasol yn ei waith cynllunio ar gyfer yr ymgyrch etholiadol, gwasanaethau addysg gan gynnwys diweddaru ei adnoddau addysgol, ei weithgareddau ymgysylltu â’r cyhoedd ar ystâd y Senedd ac oddi ar y safle, a gwaith ymgysylltu â’r cyfryngau.

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 4

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Y Pwyllgor Deisebau**
—
**Petitions Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Deisebau@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDeisebau
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Petitions@senedd.wales
senedd. wales/SeneddPetitions
0300 200 6565

David Rees AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Biliau Diwygio
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

2 Hydref 2023

Annwyl David

Deiseb P-06-1334 Gwneud y Senedd yn Fwy Cynrychiadol o Boblogaeth Cymru

Trafododd y Pwyllgor Deisebau'r ddeiseb uchod yn ein cyfarfod ar 11 Medi, ynghyd â gohebiaeth gan Y Prif Weinidog a'r Deisebydd.

Yn y cyfarfod, cytunodd yr Aelodau i ysgrifennu at eich Pwyllgor er mwyn tynnu sylw at y ddeiseb nes y cyflwynir Bil Diwygio'r Senedd.

Mae rhagor o wybodaeth am y ddeiseb, gan gynnwys gohebiaeth gysylltiedig, ar gael ar ein gwefan at: https://busnes.senedd.cymru/ieIssueDetails.aspx?IId=41308&Opt=3.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â thîm clercio'r Pwyllgor drwy'r cyfeiriad e-bost isod, neu drwy ffonio 0300 200 6454. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb drwy e-bostio'r tîm clercio: deisebau@senedd.cymru.

Yn gywir

Jack Sargeant AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Y Pwyllgor Biliau Diwygio**
–
**Reform Bill Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwygio@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwygio
0300 200 6565
–
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddReform@senedd.wales
senedd.wales/SeneddReform
0300 200 6565

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

3 Hydref 2023

Annwyl Jack

Deiseb P-06-1334 Gwneud y Senedd yn fwy cynrychiadol o boblogaeth Cymru

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 2 Hydref 2023, ac am dynnu sylw'r Pwyllgor Biliau Diwygio at y ddeiseb uchod.

Fel y gwyddoch, ein rôl yw craffu ar Filiau y bydd y Pwyllgor Busnes yn eu cyfeirio atom. Rydym wrthi ar hyn o bryd yn craffu ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) , ac rydym yn rhagweld y bydd deddfwriaeth ychwanegol i gyflwyno cwotâu rhywedd ar gyfer ymgeiswyr yn etholiadau'r Senedd, ac i'w gwneud yn ofynnol cyhoeddi gwybodaeth amrywiaeth am ymgeiswyr, yn cael ei chyfeirio atom maes o law.

Byddaf yn sicrhau bod aelodau'r Pwyllgor Biliau Diwygio yn cael gwybod am y ddeiseb, a'r ohebiaeth gysylltiedig, wrth i ni ymgymryd â'n gwaith.

Efallai yr hoffech ystyried tynnu sylw'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai at y ddeiseb. Y mae wrthi'n craffu ar y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) ar hyn o bryd. Nodaf fod y Bil hwn yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi trefniadau ar waith i wella amrywiaeth o fewn strwythurau democrataidd y Senedd a llywodraeth leol, ac i gynlluniau unigol gael eu creu a'u teilwra i gefnogi pobl â nodweddion gwarchodedig.

Yn gywir

David F. Rees.

David Rees AS
Cadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Y Pwyllgor Deisebau**
—
**Petitions Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Deisebau@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDeisebau
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Petitions@senedd.wales
senedd. wales/SeneddPetitions
0300 200 6565

David Rees AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Biliau Diwygio
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

3 Hydref 2023

Annwyl David

Deisebau Diwygio'r Senedd

Rwy'n ysgrifennu i rannu manylion ystod o ddeisebau sy'n ymwneud â Diwygio'r Senedd. Fy ngobaith yw y bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol i'ch pwyllgor wrth i chi ymgymryd â'ch gwaith craffu ar y biliau a fyddai'n trosi'r cynlluniau ar gyfer diwygio i realiti.

Mae'r Pwyllgor eisoes wedi ystyried dwy ddeiseb yn ymwneud â diwygio'r Senedd.

| Teitl y Ddeiseb | Llofnodion a dyddiad cau |
|---|---|
| Dylai Llywodraeth Cymru gynnal refferendwm cyn ehangu maint y Senedd | 1,633 o lofnodion<br>Cwblhawyd gan y Pwyllgor Deisebau ar 9 Ionawr 2023 |
| Dylid gwrthod y cynnig ynghylch 36 o Aelodau ychwanegol o'r Senedd erbyn 2026 | 760 o lofnodion<br>Cwblhawyd gan y Pwyllgor Deisebau ar 5 Rhagfyr 2022 |

Yn y tri achos, nododd y Pwyllgor y bydd "Llywodraeth Cymru hefyd yn cyflwyno Bil Diwygio'r Senedd yn y flwyddyn newydd a fydd yn gyfle pellach i'r materion hyn gael eu trafod a'u craffu yn y Senedd." Ar y sail honno, cytunwyd i gau'r deisebau.

Mae dwy ddeiseb ar hyn o bryd yn casglu llofnodion a fydd yn dod i'r Pwyllgor yn ystod yr wythnosau nesaf.

| Teitl y Ddeiseb | Statws presennol |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Rwy'n gwrthwynebu 'Bil Diwygio'r Senedd' Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ar 18 Medi 2023, yn dod yn gyfraith | Mae'r ddeiseb hon wedi casglu dros 10,000 o lofnodion, a bydd yn cael ei hystyried ar gyfer dadl yn y Senedd.<br>Y dyddiad cau yw Mawrth 2024, ond gall y deisebydd gau'n gynharach os yw'n dymuno dod ag ystyriaeth ymlaen. |
| Dylid mabwysiadu system pleidlais sengl drosglwyddadwy ar gyfer seddau'r Senedd | Mae gan y ddeiseb hon 163 o lofnodion ar adeg ysgrifennu, ond gallai gyrraedd 250 erbyn iddi gau ym mis Mawrth 2024. |
| Dylid cyflwyno ffordd i etholwyr bleidleisio i gael gwared ar eu AS cyn diwedd eu tymor | Mae'r ddeiseb hon wedi casglu dros 250 o lofnodion, a bydd y Pwyllgor yn ei hystyried yn y Flwyddyn Newydd. |

Ers 18 Medi, pan gyhoeddwyd y bil cyntaf, hyd at ddiwedd mis Medi, mae gwefan y Deisebau wedi gweld mwy o ddeisebau yn cael eu cyflwyno ar ystod eang o bynciau. Roedd nifer o'r deisebau hyn yn ymwneud â mater Diwygio'r Senedd a'r cynnydd arfaethedig yn Aelodau'r Senedd.

Ni ellir derbyn deisebau sy'n galw am gamau tebyg i ddeiseb sydd eisoes ar agor, neu sydd wedi ei chau gan y Pwyllgor o fewn 12 mis.

Mae manylion y 23 deiseb 'dyblyg' a wrthodwyd a gyflwynwyd ym mis Medi i'w gweld yn y tabl isod:

| Teil y Ddeiseb (Nid ydy deisebau annerbyniadwy yn cael ei cyfieithu) |
|---|
| Cancel plans to expand the number of members of the Senedd |
| Cancel the proposal to increase the Sennedd to 96 AMs |
| Allow the people of wales to decide if the senedd should be increased in size |
| Stop the increase in senedd members to 96 |
| To stop the Senedd creating an extra 36 AM members taking the Senedd from 60 members to 96 |
| No expansion of senedd members without a referendum |
| Hold a referendum seeking approval from the people to increase Senedd members by 36*<br>[*Tynnwyd y ddeiseb hon yn ôl cyn y gellid ei gwrthod] |
| cancel the reform bill that increases members |
| Referendum on increase of MS by 36 |
| Abolish the proposals to increase the number of Senydd members |
| Repeal the legislation to appoint 36 new Senedd Members |
| Abolish the increase of Senedd by 36 members, save £17.5 million per year |
| Reject the proposal for 36 more Senedd members-we already have enough members |
| Oppose the enlargement of the Welsh Senedd from 60 to 96 members |
| Stop any increase in the number of MSs in the Welsh Parliament |
| Stop 36 new MS at a huge cost which could be better spent elsewhere |
| Stop the expansion of the Senedd |
| Stop the introduction of 36 new senedd members at a cost of 17.8 million a year |
| The Senedd must not increase the number of sitting members from the current number of 60 to 96 |

| |
|---|
| That the proposal to increase the number of MS's be decided by referendum |
| Cancel expansion of the Senedd |
| The people of wales do not want extra AMs |
| Create a recall and by-election mechanism for any Members of the Senedd |

Mae yna rhai o ddeisebau (gwrthodwyd) hefyd yn galw ar Brif Weinidog Cymru i ymddiswyddo, neu ar gyfer etholiad ar unwaith, a gyfeiriodd at gynigion diwygio'r Senedd fel rheswm.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â thîm clercio'r Pwyllgor drwy e-bost at deisebau@senedd.cymru, neu drwy ffonio 0300 200 6454.

Yn gywir

Jack Sargeant AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Y Pwyllgor Biliau Diwygio**

**Reform Bill Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwygio@enedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwygio
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddReform@senedd.wales
senedd.wales/SeneddReform
0300 200 6565

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

5 Hydref 2023

Annwyl Jack

Deisebau ynghylch diwygio'r Senedd

Diolch am eich llythyr dyddiedig 3 Hydref 2023 yn rhoi manylion deisebau a gaewyd yn ddiweddar, deisebau presennol a deisebau a wrthodwyd mewn perthynas â diwygio'r Senedd.

Byddaf yn sicrhau bod y wybodaeth hon yn cael ei dosbarthu i aelodau'r Pwyllgor Biliau Diwygio i helpu i lywio ein gwaith.

Yn gywir

David F. Rees.

David Rees AS
Cadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English



Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Y Pwyllgor Biliau Diwygio**
—
**Reform Bill Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwygio@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwygio
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddReform@senedd.wales
senedd.wales/SeneddReform
0300 200 6565

Mick Antoniw AS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y
Cyfansoddiad, Llywodraeth Cymru

16 Hydref 2023

Annwyl Mick

Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): cwestiynau dilynol ar ôl sesiwn dystiolaeth lafar ar 5 Hydref 2023

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor ar 5 Hydref 2023 ac ymateb i'n cwestiynau ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) Llywodraeth Cymru.

Yn dilyn y sesiwn dystiolaeth, cytunodd yr Aelodau i ysgrifennu atoch gyda chwestiynau dilynol ynghylch y materion a amlinellir yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

Byddai'n ddefnyddiol cael eich ymateb **erbyn 8 Tachwedd 2023**.

Yn gywir

David F. Rees.

David Rees AS
Cadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

# Atodiad: cwestiynau dilynol ar ôl y sesiwn dystiolaeth lafar ar 5 Hydref 2023

Yn dilyn y sesiwn dystiolaeth lafar ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) ar 5 Hydref 2023, byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth am y materion a restrir isod. Byddai'n ddefnyddiol cael eich ymateb erbyn 8 Tachwedd 2023.

## Cefnogaeth wleidyddol i'r cynigion

Fel y trafodwyd yn ystod y sesiwn dystiolaeth, cyhoeddodd y Prif Weinidog ac arweinydd Plaid Cymru ar y pryd ddatganiad safbwynt ar y cyd ar 10 Mai 2022 yn nodi eu cynigion ar gyfer, ymhlith materion eraill, Senedd â 96 Aelod, a etholir drwy gynrychiolaeth gyfrannol â rhestrau caeedig ar sail parau o 32 etholaeth Senedd y DU. Gwnaethant ysgrifennu at y Pwyllgor Diben Arbennig ar yr un diwrnod i dynnu'r datganiad at sylw'r Pwyllgor, gan nodi'r canlynol:

> *"Rydym yn ddiolchgar am waith caled eich pwyllgor wrth archwilio rhai o elfennau craidd y gwaith o ddiwygio'r Senedd. Rydym yn hyderus y bydd y datganiad isod yn eich galluogi i wneud argymhellion ar y materion sylfaenol hyn."*

Gwnaethoch ddweud yn ystod y sesiwn dystiolaeth nad oeddech yn gwybod dim am y llythyr (paragraff 36).

1. A allech egluro pryd y daethoch i wybod am y llythyr a anfonwyd gan y Prif Weinidog ac arweinydd Plaid Cymru ar y pryd at y Pwyllgor Diben Arbennig ar 10 Mai 2022.

2. Pa wybodaeth y gallwch ei rhoi am y dystiolaeth sy'n sail i'r datganiad safbwynt ar y cyd ym mis Mai 2022, sut y daethpwyd i'w gasgliadau, neu'r dylanwad a gafodd ar yr argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Diben Arbennig.

Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, gwnaethoch gyfeirio nifer o weithiau at yr angen am y ddeddfwriaeth a'i darpariaethau i gael cefnogaeth uwchfwyafrif yn y Senedd. Gwnaethoch hefyd ddweud y canlynol am eich rôl fel yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil hwn:

> *"this is my Bill implementing what actually emerges from the Senedd, from the parliamentary process itself. [...] My function and my interest are solely to actually create viable, effective and in-competence legislation for the Senedd to consider, to implement the wishes of the Senedd". (paragraph 39)*

3. Ar y sail hon, pa ddull y byddwch yn ei fabwysiadu i ystyried argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor hwn, neu bwyllgorau eraill y Senedd, sy'n galw arnoch i gyflwyno gwelliannau i'r Bil.

4. Pa ddull y byddwch yn ei fabwysiadu i ymgysylltu â phartneriaid y Cytundeb Cydweithio a phleidiau gwleidyddol eraill yn y Senedd yn ystod y broses graffu ddeddfwriaethol i (i) asesu a yw'r cynigion yn y Bil fel y'i cyflwynwyd yn parhau i fod ag uwchfwyafrif, ac (ii)

asesu a allai opsiynau eraill a argymhellir gan bwyllgorau'r Senedd neu a gyflwynir fel gwelliannau gan Aelodau o'r Senedd gael uwchfwyafrif.

## Cefnogaeth y cyhoedd i'r cynigion

5. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i asesu cefnogaeth y cyhoedd ar gyfer y cynigion yn y Bil.

6. Pa baratoadau y mae Llywodraeth Cymru yn eu gwneud i weithio gyda phartneriaid i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o'r trefniadau etholiadol newydd y mae'n cynnig eu gweithredu ar gyfer 2026.

## Y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)

7. Trosolwg o'r meysydd rhyngweithio a rhyngddibyniaeth rhwng Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) a'r Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru).

8. Eich barn am effaith bosibl cyflwyno tri Bil ym maes diwygio etholiadol un yn gyflym ar ôl y llall, ac a allai hyn beri risgiau i eglurder a hygyrchedd y gyfraith (er enghraifft, yn achos peidio â phasio un neu ragor o'r Biliau, neu o ganlyniad i gwmpas a graddfa'r newidiadau sydd i'w gweithredu).

## Nifer y Dirprwy Lywyddion

9. A yw'r dull a fabwysiedir yn y Bil yn peryglu creu hierarchaeth rhwng y Dirprwy Lywydd a etholir o dan 25(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac unrhyw Ddirprwy Lywydd a etholir o dan adran 25(1A) newydd sydd i'w mewnosod gan adran 4 o'r Bil.

10. A roddodd Llywodraeth Cymru unrhyw ystyriaeth i drefniadau mewn deddfwrfeydd eraill ar gyfer ethol Dirprwy Lywyddion ychwanegol. Er enghraifft, mae gan Senedd yr Alban yr hyblygrwydd i ethol un neu ragor o Ddirprwy Lywyddion, ac mae Tŷ'r Cyffredin yn darparu ar gyfer hierarchaeth o Ddirprwy Lefaryddion ac i sicrhau bod y garfan o Lefaryddion a Dirprwy Lefaryddion yn cynnwys o leiaf un dyn ac o leiaf un fenyw.

11. A allai cael Dirprwy Lefarydd ychwanegol gael effaith ar gydbwysedd gwleidyddol Senedd yn y dyfodol.

## Maint Llywodraeth Cymru

12. Beth yw'r sail resymegol dros ddarparu yn adran newydd 51(4) Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (fel y'i mewnosodir gan adran 5 o'r Bil) na chaniateir defnyddio'r pŵer i gynyddu'r terfyn ar nifer Gweinidogion Cymru o dan adran 51(3) newydd i leihau uchafswm Gweinidogion Cymru.

13. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn gweld y defnydd o'r pŵer yn gweithio'n ymarferol pe bai Prif Weinidog am godi uchafswm Gweinidogion Cymru, er enghraifft i ddarparu ar gyfer datganoli pwerau newydd i'r Senedd, i ymateb i ddigwyddiadau, neu i adlewyrchu trefniadau clymblaid.

## Cynyddu amlder etholiadau'r Senedd

Nid yw'r cynnig i gynyddu amlder etholiadau'r Senedd yn seiliedig ar argymhellion y Pwyllgor Diben Arbennig. Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Bil yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi ystyried y cydbwysedd rhwng "adnewyddiad democrataidd, blinder pleidleiswyr a rhoi digon o amser i weinyddiaeth weithredu ei hagenda". Mae'n datgan yr:

> "...ystyrir bod tymhorau pedair blynedd yn cydbwyso'r ystyriaethau hyn yn ddigonol ac mewn gwirionedd dyna oedd y "norm" yn nemocratiaeth Cymru ar adeg datganoli ac fe barhaodd felly tan yn gymharol ddiweddar".

Fodd bynnag, nid yw'n esbonio pam y mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod tymhorau pedair blynedd yn darparu cydbwysedd mwy priodol na thymhorau pum mlynedd.

14. Rhowch ragor o wybodaeth am y sail dystiolaeth ar gyfer eich penderfyniad i gynnwys darpariaeth yn y Bil i gynyddu amlder etholiadau'r Senedd o bob pum mlynedd i bob pedair blynedd.

15. Amlinellwch unrhyw Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd mewn perthynas â'r ddarpariaeth hon, yn enwedig unrhyw ystyriaeth a allai'r cynnig gael effaith wahaniaethol ar sail oedran ynghylch a all pobl fod yn fwy neu'n llai tebygol o sefyll etholiad i'r Senedd o ganlyniad i newid yn amlder etholiadau'r Senedd.

16. Pa drafodaethau neu ymgysylltiad sydd wedi'u cynnal hyd yn hyn neu a gynlluniwyd gyda chynrychiolwyr llywodraeth leol ynghylch effaith bosibl cynyddu amlder etholiadau'r Senedd. Dylai hyn gynnwys trafodaethau neu ymgysylltiad ynghylch (i) effaith gweinyddu etholiadau'r Senedd yn amlach, (ii) effaith pob pumed etholiad Senedd sy'n cyd-daro â phob pedwerydd etholiad llywodraeth leol (heb newid yn amlder etholiadau lleol), ac (iii) a ddylid newid amlder etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru

## Ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ac Aelodau fod yn gofrestredig i bleidleisio mewn cyfeiriad yng Nghymru.

Nid yw'r cynnig i'w gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ac Aelodau fod yn gofrestredig i bleidleisio mewn cyfeiriad yng Nghymru yn seiliedig ar argymhellion y Pwyllgor Diben Arbennig. Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, gwnaethoch nodi bod rhan o'r rheswm rydych yn cynnig preswyliad yng Nghymru at ddiben sefyll etholiad neu fod yn Aelod o'r Senedd yn cael ei asesu drwy gofrestru ar gofrestr etholiadol mewn cyfeiriad yng Nghymru yn unig, yn hytrach na modelau tebyg i'r rhai a ddefnyddir at

ddibenion eraill megis cymhwysedd ar gyfer tai oherwydd y posibilrwydd ar gyfer heriau cyfreithiol (paragraffau 86-97).

Gwnaethoch nodi hefyd, er mwyn i ymgeisydd ar restr plaid fod yn gymwys i gymryd sedd a ddeuai'n wag rhwng etholiadau cyffredinol arferol, y byddai angen iddynt fod yn gofrestredig i bleidleisio mewn cyfeiriad yng Nghymru ar yr adeg pan fyddai'r sedd wag yn codi h.y. ni fyddai'n cael cyfle i ailsefydlu ei breswyliad cyn i'r Swyddog Canlyniadau basio ymlaen i'r ymgeisydd nesaf ar y rhestr (paragraffau 172-175).

Cadarnhaodd Will Whitely, Dirprwy Gyfarwyddwr Diwygio'r Senedd Llywodraeth Cymru, nad oedd ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnal ar y cynnig oherwydd na fu digon o amser cyn i Lywodraeth Cymru gyflwyno'r Bil (paragraffau 99-100).

17. A allech roi mwy o wybodaeth am natur yr heriau cyfreithiol posibl y gwnaethoch gyfeirio atynt yn ystod y sesiwn dystiolaeth.

18. Wrth wneud eich penderfyniadau ar y darpariaethau yn y Bil, pa ystyriaeth y gwnaethoch ei rhoi i adran 79 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, sy'n darparu mai dim ond os oes ganddo gysylltiad ag ardal yr awdurdod lleol y caiff person fod yn gymwys i'w ethol i wasanaethu ar awdurdod lleol yng Nghymru a Lloegr, ac y caniateir sefydlu cysylltiad o'r fath mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys, ymhlith eraill: cofrestriad etholiadol, perchnogaeth tir neu eiddo, cyflogaeth neu breswyliad.

19. A yw Llywodraeth Cymru wedi ystyried a allai diffyg 'cyfnod gras' neu fecanwaith arall i alluogi ymgeisydd ar restr plaid i ailsefydlu ei breswyliad o fewn cyfnod rhesymol pe bai sedd wag yn codi rhwng etholiadau cyffredinol arferol y byddai, fel arall, yn gymwys i'w llenwi yn gallu darbwyllo pobl i beidio â rhoi ei enw i'w ddewis neu rhag cytuno i gael ei enwebu pe bai'n cael ei ddewis yn is i lawr ar restrau'r pleidiau.

20. Yn niffyg ymgynghoriad cyhoeddus cyn cynnwys y ddarpariaeth hon yn y Bil, pa drafodaethau neu ymgysylltiad y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymgymryd â hwy (ac â phwy) mewn perthynas â'r gofyniad hwn, sut y byddai'n gweithredu'n ymarferol, ac a allai arwain at ganlyniadau anfwriadol.

## Y system etholiadol

21. Y sail resymegol dros leihau uchafswm hyd rhestrau ymgeiswyr y pleidiau o 12 ar hyn o bryd (ar gyfer 4 sedd ym mhob rhanbarth) i 8 (ar gyfer 6 sedd ym mhob etholaeth newydd), a pha asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o'r effaith bosibl ar y gallu i lenwi seddi gwag sy'n codi rhwng etholiadau cyffredinol arferol, yn enwedig o ystyried y gofyniad preswyliad newydd arfaethedig.

22. Pam nad yw'r Bil yn cynnwys darpariaeth ddatganedig y bydd enwau ymgeiswyr ar restrau pleidiau yn cael eu cynnwys ar bapurau pleidleisio (yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Diben Arbennig), ac a roddwyd unrhyw ystyriaeth i ddiwygio'r Bil yn hyn o beth.

## Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

23. A fydd angen penodi comisiynwyr ychwanegol i alluogi Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru i gynnal ei adolygiad 'paru' o etholaethau'r Senedd cyn etholiad 2026.

24. A allech amlinellu'r broses benodi a fydd yn gymwys i gomisiynwyr Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, gan gynnwys a yw Llywodraeth Cymru wedi ystyried (a/neu drafod â'r Senedd) a ddylai'r broses ar gyfer penodi Cadeirydd Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru gynnwys gwrandawiad cyn penodi gydag un o bwyllgorau'r Senedd.

## Ffiniau ar gyfer etholiad y Senedd yn 2026

25. A fydd y broses a amlinellir yn Atodlen 1 i'r Bil yn cynnig cyfleoedd digonol i'r cyhoedd a rhanddeiliaid sydd â diddordeb gymryd rhan yn y broses adolygu ffiniau o ystyried y cyfnodau ymgynghori wedi'u cwtogi y mae'r Bil yn darparu ar eu cyfer.

26. Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith y gwahaniaeth rhwng etholfraint y DU (y mae ffiniau Senedd y DU yn seiliedig arni) a'r etholfreintiau llywodraeth leol (y cynhelir etholiadau'r Senedd arnynt) ar gydraddoldeb neu gynrychiolaeth fel arall ar draws yr 16 etholaeth wedi'u paru ar gyfer 2026.

27. A fydd Llywodraeth Cymru yn darparu diffiniad o "cyffiniol" i gefnogi ystyriaethau paru Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru.

28. A yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu darparu rhagor o ddiffiniad neu ganllawiau y dylai Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ystyried eu bod yn "cwlwm lleol" wrth gynnal ei adolygiad paru. Er enghraifft, mae'r Memorandwm Esboniadol yn awgrymu y byddai'r Gymraeg yn gwlwm lleol, ond nid yw hyn wedi'i gynnwys yn y Bil.

## Adolygiadau ffiniau yn y dyfodol

29. Y sail resymegol dros osod y cwota etholiadol ar gyfer adolygiadau parhaus o ffiniau'r Senedd ar ±10 y cant.

30. A oes unrhyw densiwn rhwng y gofyniad yn adran 49C(1) newydd o Ddeddf 2013 (fel y'i mewnosodir gan Atodlen 2 i'r Bil) i gydraddoli maint etholaethau'r Senedd, a'r gofynion yn adran 49C(2)(b) newydd i leihau maint y newid i etholaethau'r Senedd a rhoi sylw i anghyfleustra gwneud newidiadau.

31. A allai tensiwn o'r fath fod yn arbennig o ddifrifol yn yr adolygiad 'llawn' cyntaf o dan Ran 3A newydd o Ddeddf 2013 ar y sail y bydd yr adolygiad a gynhelir rhwng 2025 a 2028 yn seiliedig ar etholfraint wahanol i adolygiad Senedd y DU yn 2023, a bydd angen ystyried newidiadau a allai fod yn arwyddocaol i'r etholaeth sy'n cynnwys Ynys Môn.

## Adolygiad o'r darpariaethau

32. Y sail resymegol y tu ôl i'r gofyniad yn adran 19 i'r Llywydd gynnig sefydlu un o bwyllgorau'r Senedd i gynnal adolygiad o weithrediad ac effaith deddfwriaeth Llywodraeth Cymru, yn hytrach na gosod gofyniad ar Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad o'r fath.

33. A yw'n briodol i Lywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol mewn deddfwriaeth i'r Llywydd gynnig sefydlu un o bwyllgorau'r Senedd i gynnal ymchwiliad i "ba raddau y mae elfennau democratiaeth iach yn bresennol yng Nghymru", ac i Lywodraeth Cymru gynnig yn y Memorandwm Esboniadol yr hyn y gallai ymchwiliad o'r fath ei ystyried.

## Darpariaethau amrywiaeth

Rydym wedi ysgrifennu atoch o'r blaen i ofyn i chi am wybodaeth am gynigion Llywodraeth Cymru i gyflwyno Bil arall i gyflwyno cwotâu rhywedd ymgeiswyr a'i gwneud yn ofynnol cyhoeddi gwybodaeth am amrywiaeth ymgeiswyr. Rydym yn edrych ymlaen at gael ymateb erbyn 3 Tachwedd 2023 fel y gofynnwyd amdano o'r blaen.

34. A allech amlinellu'r sail resymegol dros fwriad Llywodraeth Cymru i ddyroddi canllawiau i bleidiau gwleidyddol ar strategaethau amrywiaeth a chynhwysiant, yn hytrach na chynnwys darpariaeth sy'n ymwneud â'r materion hyn yn y Bil.

## Goblygiadau ariannol

35. Pam nad yw'r Memorandwm Esboniadol yn cynnwys amcangyfrifon ariannol ar gyfer cynigion amgen, yn enwedig ar gyfer y darpariaethau hynny nad ydynt yn seiliedig ar argymhellion y Pwyllgor Diben Arbennig.

36. Pa sicrwydd y gallwch ei roi bod y ffigurau yn y Memorandwm Esboniadol yn gadarn ac yn adlewyrchiad cywir o gost bosibl y cynigion.

37. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi nad yw rhai costau wedi'u hamcangyfrif ar y sail eu bod yn destun penderfyniadau i'w gwneud gan y Seithfed Senedd a Llywodraeth Cymru sydd ar waith ar ôl 2026. A allwch roi amcangyfrif bras ar gyfer y costau ychwanegol anhysbys hyn a allai godi o ganlyniad i weithrediad y Bil.

## Mecanwaith i adalw Aelodau o'r Senedd

38. Pa ystyriaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i rhoi i faterion sy'n ymwneud â mecanweithiau i alluogi etholwyr i adalw Aelodau o'r Senedd, gan gynnwys, er enghraifft, faint y gefnogaeth gyhoeddus a gwleidyddol ar gyfer darpariaethau o'r fath, a sut y gellid ymgorffori darpariaethau o'r fath yn system etholiadol arfaethedig Llywodraeth Cymru, sef cynrychiolaeth gyfrannol â rhestrau caeedig.

## Adnoddau a chyllid ar gyfer datblygu polisi'r gwrthbleidiau

39. Pa ystyriaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i rhoi i ddatblygu cynigion i gefnogi datblygiad polisi gan wrthbleidiau gwleidyddol yng Nghymru.

Y Pwyllgor Biliau Diwygio
—
Reform Bill Committee



Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwygio@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwygio
0300 200 6565
—
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddReform@senedd.wales
senedd.wales/SeneddReform
0300 200 6565

Huw Irranca-Davies AS
Cyn-gadeirydd
Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r
Senedd

16 Hydref 2023

Annwyl Huw

Y Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)

Fel y gwyddoch, cyflwynodd Llywodraeth Cymru yn ffurfiol Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) i'r Senedd ar 18 Medi 2023. Rôl y Pwyllgor Biliau Diwygio yw cynnal gwaith craffu Cyfnod 1 ar egwyddorion cyffredinol y Bil. Ysgrifennaf atoch i'ch gwahodd, fel cyn-gadeirydd y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, i rannu eich barn ar y Bil gyda ni.

Roedd y cylch gwaith a roddwyd i'r Pwyllgor Diben Arbennig gan y Senedd yn cynnwys ystyried casgliadau'r Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd yn ei adroddiad ym mis Medi 2020, a gwneud argymhellion ar gyfer cyfarwyddiadau polisi ar gyfer Bil Llywodraeth Cymru ar Ddiwygio'r Senedd.

Yn 2017, argymhellodd y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad y dylai'r Senedd gael o leiaf 80, ac yn ddelfrydol yn agosach at 90, o Aelodau. Mewn perthynas â'r system etholiadol, argymhellodd y Panel Arbenigol pe bai ei ymyriadau arfaethedig i gefnogi ac annog amrywiaeth cynrychiolaeth (gan gynnwys cwotâu rhywedd deddfwriaethol ar lefel ymgeisydd a'i gwneud yn ofynnol cyhoeddi gwybodaeth am amrywiaeth ymgeiswyr) yn cael eu gweithredu, y dylai'r Aelodau gael eu hethol drwy bleidlais sengl drosglwyddadwy. Dywedodd pe na bai ymyriadau amrywiaeth o'r fath yn cael eu gweithredu, y dylai'r Aelodau gael eu hethol drwy gynrychiolaeth gyfrannol rhestr



Senedd Cymru
Welsh Parliament

hyblyg. O ran ffiniau etholiadol, argymhellodd y dylid defnyddio naill ai'r ffiniau etholaethau presennol neu ffiniau awdurdodau lleol fel sail ar gyfer creu etholaethau aml-aelod newydd.[1]

Yn 2020, daeth Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol i'r casgliad, ar sail y dystiolaeth a gafodd a'i ystyriaeth o argymhellion y Panel Arbenigol, y dylai'r Senedd gael rhwng 80 a 90 o Aelodau, wedi'u hethol drwy bleidlais sengl drosglwyddadwy. Nododd ei adroddiad nad oedd yn gallu dod i gasgliadau ar ffiniau etholiadol oherwydd bod y pandemig COVID-19 wedi cyfyngu ar ei allu i gasglu tystiolaeth.[2]

Yn 2022, argymhellodd y Pwyllgor Dibenion Arbennig, ymhlith materion eraill, y dylai'r Senedd gael 96 o Aelodau, wedi'u hethol drwy gynrychiolaeth gyfrannol rhestr gaeedig i gynrychioli etholaethau ar sail y 32 o etholaethau newydd yn San Steffan.[3]

Mae'n amlwg o'r Memorandwm Esboniadol i'r Bil[4], ac o ddatganiadau a wnaed gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad[5] a'r Prif Weinidog[6] bod adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig wedi chwarae rhan arwyddocaol yng ngwaith Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r cynigion polisi sy'n sail i Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) a'r Bil ei hun.

Felly, er bod y cyfrifoldeb dros Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) a'r darpariaethau ynddo yn perthyn i'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad fel yr Aelod sy'n gyfrifol, byddem yn croesawu eich barn fel cyn-gadeirydd y Pwyllgor Diben Arbennig ar nifer o faterion, gan gynnwys:

1. Dehongliad y Pwyllgor o'i gylch gwaith (ystyried casgliadau'r Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd a gwneud argymhellion ar gyfer cyfarwyddiadau polisi ar gyfer Bil Llywodraeth Cymru ar Ddiwygio'r Senedd), a sut y gwnaeth y cylch gwaith hwnnw lywio argymhellion y Pwyllgor Diben Arbennig.

2. Effaith y datganiad sefyllfa ar y cyd a gyhoeddwyd gan y Prif Weinidog ac arweinydd Plaid Cymru ar y pryd ar 10 Mai 2022, a'r llythyr at y Pwyllgor Diben Arbennig ar yr un dyddiad, ar adroddiad y Pwyllgor, gan gynnwys unrhyw effaith ar drywydd y Pwyllgor, ei gasgliadau neu ei argymhellion.

---

[1] Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, Senedd sy'n gweithio i Gymru: adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, Tachwedd 2017, argymhellion 1, 4 a 6

[2] Pwyllgor Diwygio Etholiadol y Senedd, Diwygio'r Senedd: y camau nesaf, Medi 2020, argymhellion 1 a 4 a pharagraff 16

[3] Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru, Mai 2022, argymhellion 2, 7 ac 18

[4] Er enghraifft, Llywodraeth Cymru, Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol, Medi 2023, paragraff 17

[5] Er enghraifft, Cofnod y Trafodion, y Cyfarfod Llawn [paragraff 206], 19 Medi 2023, Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Biliau Diwygio [paragraffau 12, 25 a 27]


[6] Cofnod y Trafodion, y Cyfarfod Llawn [paragraff 49], 26 Medi 2023

3. Y dystiolaeth y seiliodd y Pwyllgor Diben Arbennig ei argymhellion arni, yn enwedig argymhellion mewn perthynas â: nifer penodol yr Aelodau (argymhelliad 2); y defnydd o gynrychiolaeth gyfrannol rhestr gaeedig i ethol Aelodau o'r Senedd (argymhelliad 7); y defnydd o fformiwla etholiadol D'Hondt i ddyrannu seddi (argymhelliad 8); a'r cynnig y dylid creu etholaethau'r Senedd i ddechrau drwy baru'r 32 o etholaethau San Steffan a sefydlwyd gan adolygiad ffiniau Senedd y DU yn 2023 (argymhelliad 18).

4. Y ffordd y mae argymhellion y Pwyllgor Diben Arbennig wedi'u dehongli a'u hadlewyrchu ym Mil Llywodraeth Cymru a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef.

Byddem yn croesawu ymateb ysgrifenedig ar y materion hyn erbyn **dydd Gwener 3 Tachwedd 2023**.

Yn gywir



David Rees AS
Cadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

# Eitem 8

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon